O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2556 (Cy. 280)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Man i'r Gogledd o Gylchfan Edlogan Way i Fan i'r De o Gylchfan Mamheilad, Torfaen) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*5 Hydref 2012*
Yn dod i rym	*15 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Man i'r Gogledd o Gylchfan Edlogan Way i Fan i'r De o Gylchfan Mamheilad, Torfaen) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 o'r gloch ar 15 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A4042, i'r gogledd o Gylchfan Edlogan Way i'r de o